Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Pencoedtre

**Heol Merthyr Dyfan**
**Y Barri**
**CF62 9YQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Pencoedtre |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 993 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 912 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 80 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.5%) | 37.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 23.0%) | 30.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 28/11/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn ysgol ofalgar lle mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion. Llwyddodd y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth i reoli heriau pandemig COVID-19 yn dda. Fodd bynnag, ceir diffyg cyfeiriad clir a strategol gan uwch arweinwyr, a gormod o ddryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau. O ganlyniad, nid yw eu gwaith yn cael digon o effaith ar wella agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiad, ansawdd yr addysgu a'r asesu, y ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion eraill sydd angen cymorth ychwanegol. Nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da, yn enwedig o ran addysgu ac asesu. O ganlyniad, nid ydynt yn ddigon manwl gywir wrth gynllunio gwelliant, ac felly nid yw'n ddigon effeithiol.

Mae presenoldeb disgyblion yn destun pryder sylweddol ac nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r problemau sy'n effeithio ar bresenoldeb. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gyfeillgar a chroesawgar ac yn mwynhau perthnasoedd cadarnhaol gyda staff a chyfoedion. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr, tynnir eu sylw'n hawdd, ac nid ydynt yn ymgysylltu'n adeiladol â'u dysgu. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymddwyn yn ddigon da mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae hyn yn effeithio ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd disgyblion eraill.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau defnyddiol ac yn darparu cymorth buddiol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd addas, at ei gilydd. Mae ychydig o'r gwersi yn hynod effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da, ac yn aml, nid ydynt yn galluogi disgyblion i ddatblygu a dysgu'n annibynnol. Mae disgwyliadau'r athrawon hyn yn rhy isel ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu gwersi. Nid yw ymagwedd gyffredinol yr ysgol at asesu yn galluogi athrawon na disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella yn ddigon da.

Caiff cwricwlwm eang a chytbwys yr ysgol ei ymestyn gan ystod o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr ac amrywiaeth o opsiynau academaidd a galwedigaethol. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ar draws pob pwnc, mae'r gwaith ysgrifenedig a gynhyrchir gan ddisgyblion yn gymharol fach.

Mae gan arweinwyr a staff ddyhead clir i gefnogi lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol ac yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw dull arweinwyr o sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon yn ddigon trylwyr, ac nid yw'r rhesymau pam y caiff disgyblion eu dewis ar gyfer gwahanol ddarpariaethau, yn ddigon clir. Mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ond nid yw'r ddarpariaeth a'r oruchwyliaeth strategol o'r maes gwaith hwn wedi'u datblygu'n ddigonol, ac ychydig o ddisgyblion yn unig sydd â chynlluniau gwella unigol.

## Argymhellion

A1 Gwella arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar bob lefel, gan gynnwys ymagwedd yr ysgol at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A2 Gwella'r ddarpariaeth a'r ymagwedd strategol at gefnogi presenoldeb ac ymddygiad disgyblion

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A4 Gwella arweinyddiaeth strategol ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r oruchwyliaeth gyffredinol o'r amrywiaeth o ddarpariaethau a gynigir i bob disgybl sydd angen cymorth ychwanegol

A5 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu safonau medrau disgyblion

A6 Mynd i'r afael â'r broblem o ran diogelwch ar y safle ger mynedfa flaen yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas, at ei gilydd, ac mewn ychydig o'r gwersi hyn, maent yn gwneud cynnydd cadarn. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol o ganlyniad i wendidau mewn addysgu. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig oherwydd eu hymddygiad gwael a'u hagweddau negyddol at ddysgu.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn addas, a gallant gymhwyso hyn i gyd-destunau newydd. Er enghraifft, mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn effeithiol i esbonio eu hystyriaethau wrth ddylunio tegan sy'n symud, sef 'jitterbug'. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth galw dysgu blaenorol i gof a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Pan gânt eu hannog i wneud hynny, mae mwyafrif o ddisgyblion yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Maent yn gwneud pwyntiau synhwyrol ac yn esbonio eu safbwyntiau'n glir. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando'n barchus ar staff ac ar eu cyfoedion. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio termau allweddol yn gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hyderus ac mae ganddynt eirfa gadarn. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn meddu ar eirfa sylfaenol iawn ac yn ei chael yn anodd galw termau allweddol i gof neu'u defnyddio'n briodol. Nid yw'r disgyblion hyn yn gwrando'n ddigon da, ac yn aml, nid ydynt yn cymryd rhan mewn trafodaethau ystafell ddosbarth neu maent yn cynnig atebion byr yn unig, heb eu datblygu. Mewn rhai achosion, mae hyn oherwydd bod yr athro'n ateb dros y disgyblion neu'n symud yn rhy gyflym, yn hytrach nag aros i ddisgyblion ymateb, a'u cynorthwyo.

Ar draws y cwricwlwm, mae'r gwaith ysgrifenedig a gynhyrchir gan ddisgyblion yn gymharol fach. Yn benodol, nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon da neu'n ysgrifennu ar gyfer ystod briodol eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Yn ychwanegol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu annibynnol yn ddigonol, yn aml oherwydd bod tasgau wedi'u sgaffaldio'n ormodol. O roi'r cyfle iddynt, gall mwyafrif y disgyblion ysgrifennu'n glir, gan drefnu eu gwaith yn briodol. Maent yn ysgrifennu'n addas ar gyfer ystod gyfyng o ddibenion a chynulleidfaoedd. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion hyn yn defnyddio atalnodi'n gywir ac mae ganddynt feistrolaeth addas o eirfa. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau dychmygus a chreadigol, ac yn gwneud defnydd effeithiol o ddyfeisiau llenyddol a thechnegau ysgrifennu i ychwanegu lliw at eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu'n ddisgrifiadol mewn gwersi Saesneg. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu cyson, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio atalnodi'n gywir.

Wrth ddarllen, gall llawer o ddisgyblion ddod o hyd i ffeithiau yn briodol, ac mae gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth briodol a sylfaenol o destunau a astudir. Mae lleiafrif ohonynt yn deall ystyr ymhlyg yn dda ac yn ymgysylltu ag iaith yn effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod sensitif ac aeddfed wrth iddynt ddarllen testunau, er enghraifft wrth fyfyrio ar deimladau'r bardd yng ngherdd Dannie Abse am ddychwelyd

i Gaerdydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddigonol oherwydd bod cyfleoedd cyfyngedig i wneud hynny. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn meddu ar strategaethau darllen i'w helpu i ddeall geiriau anghyfarwydd.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fondiau rhif wrth adio rhestr o rifau, a gallant dalgrynnu'n llwyddiannus i ddau le degol wrth weithio gydag arian. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio lluosi yn effeithiol a gallant ddefnyddio adio yn effeithlon i ddatrys problemau mewn geometreg ac algebra. Gall y disgyblion hyn adnabod pwysigrwydd rhif cyfeiriedig cywir wrth ddatrys problemau mwy cymhleth. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cael trafferth cwblhau problemau â llawer o gamau, sy'n cyfuno gwahanol fedrau. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwirio rhesymoldeb eu hatebion wrth newid ffracsiynau pendrwm i rifau cymysg. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar, ac yn defnyddio, meddalwedd sylfaenol yn effeithlon i gwblhau gweithgareddau mewn amrywiaeth o bynciau. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau digidol sylfaenol yn briodol ar gyfer prosesu geiriau, cyflwyno gwybodaeth a gwaith syml ar daenlenni. Mewn ychydig o bynciau, maent yn dechrau datblygu medrau digidol mwy datblygedig, fel defnyddio cymhwysiad i greu eu graffeg eu hunain i'w defnyddio mewn animeiddiad.

Pan fyddant yn cael cyfle, mae disgyblion yn mwynhau datblygu eu medrau creadigol a'u medrau meddwl. Er enghraifft, pan fydd disgyblion y chweched dosbarth yn cyflwyno yn arddull cymeriadau theatr cerdd mewn drama, a disgyblion Blwyddyn 8 yn cymhwyso eu medrau meddwl wrth drafod a llunio casgliadau ynglŷn â phwy oedd ar fai am drychineb y Titanic mewn hanes. Ar y cyfan, caiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu'r medrau hyn. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy wersi addysg gorfforol a phynciau ymarferol eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso medrau trin yn fedrus wrth chwarae gêm o bêl-fasged.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd digonol ar y cyfan yn eu medrau Cymraeg. Maent yn galw enwau, ansoddeiriau a berfau Cymraeg sylfaenol i gof yn addas i lunio llythyrau i ddisgrifio eu bywyd teuluol a'u hobïau, a darnau byr eraill o ysgrifennu yn amser y presennol. Mae mwyafrif ohonynt yn deall rheolau gramadeg pwysig fel treiglo cytseiniaid ar ôl arddodiaid. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau llafaredd. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau Cymraeg byr a sylfaenol yn hawdd, ac maent yn llwyddo i gasglu gwybodaeth o'r testunau hyn. Mae ganddynt ystod addas o eirfa, sy'n eu helpu i nodi manylion fel oedran, teulu, hobïau a phersonoliaeth wrth ddarllen darnau byr am bobl enwog. Mae gan ychydig o ddisgyblion mwy abl amgyffrediad da o ramadeg, maent yn llunio brawddegau estynedig â chywirdeb rhesymol, ac yn defnyddio ystod o amserau. Mae disgyblion eraill yn gwneud camgymeriadau gramadeg cyson yn eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg. Yn benodol, mae medrau ysgrifennu disgyblion iau yn wan. Maent yn dibynnu'n helaeth ar restrau geirfa i ysgrifennu ymadroddion byr, ar lefel brawddeg.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn groesawgar a chyfeillgar tuag at ymwelwyr ac oedolion eraill, a gall mwyafrif ohonynt siarad yn hyderus am eu hysgol. Mae'r cyfleoedd allgyrsiol helaeth fel paniau dur, gweithgareddau chwaraeon a chlwb gwyddbwyll yn boblogaidd ymhlith disgyblion. Mae'r rhain yn eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chorfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae mwyafrif ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt yn dda. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo bod bwlio'n broblem ac nad yw'r ysgol yn delio â hyn yn effeithiol.

Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn bwrw ymlaen â thasgau yn gyflym, gallant ddal ati i ganolbwyntio'n dda ac osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw. Mae'r disgyblion hyn yn dangos diddordeb yn eu dysgu a gallant weithio'n dda â disgyblion eraill, gan ymddwyn â pharch. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr, nid ydynt yn gwrando'n ddigon da, ac maent yn sgwrsio pan fydd pobl eraill yn siarad. Tynnir sylw y disgyblion hyn yn hawdd, ac maent yn methu ymgysylltu mewn gwersi yn aml. Mae ychydig o ddisgyblion yn araf yn cwblhau tasgau, ac yn ei chael yn anodd rhyngweithio'n adeiladol â disgyblion eraill. Mae ychydig o ddisgyblion yn amharchus ac nid ydynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Yn yr un modd, mae ychydig o ddisgyblion yn camymddwyn yn ystod amser cymdeithasol.

At ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da, ac yn aml, maent yn dibynnu gormod ar enghreifftiau neu sgaffaldiau gan athrawon. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau neu weithio ar eu pen eu hunain. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd digon o falchder yn eu gwaith. Mae eu llyfrau yn aml yn anniben ac yn cynnwys gwaith heb ei orffen neu fylchau.

Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn dangos ymgysylltiad arbennig ac yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Maent yn chwarae rôl allweddol o fewn yr ysgol gan ddatblygu eu medrau arwain trwy rolau mentora cefnogol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar gymryd rhan mewn cyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy amrywiaeth o grwpiau ysgol, fel grwpiau'r cyngor ysgol, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a LHDTC+. Hefyd, maent yn datblygu eu medrau dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth trwy drefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer apêl Shine Bright y GIG neu'n cynllunio diwrnod diwylliannol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol a grwpiau eraill o ddisgyblion yn cyfleu deilliannau eu gwaith i ddisgyblion eraill yn ddigon da.

Mae presenoldeb yn arbennig o isel ac absenoldeb parhaus yn uchel. Mae hyn yn destun pryder sylweddol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu disgyblion o gamau blaenorol. Caiff ei ymestyn gan ymweliadau addysgol a

gweithgareddau allgyrsiol buddiol fel y clwb Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), ac mae'r aelodau wrthi'n adeiladu peiriant arcêd ar hyn o bryd. Yng nghyfnod allweddol 4, gall disgyblion ddewis o blith ystod o lwybrau ystyrlon sy'n cynnwys amrywiaeth o opsiynau academaidd a galwedigaethol. Gellir cyfuno'r rhain yn hyblyg i weddu i anghenion a dyheadau unigolion. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn elwa ar ddarpariaeth fewnol ar gyfer gwallt a harddwch. Cyflwynir y cwricwlwm chweched dosbarth cynhwysfawr mewn partneriaeth ag ysgol leol arall.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth manteisio ar ddarpariaeth brif ffrwd. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth 'Dyfodol Llwyddiannus' wedi ailennyn diddordeb disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Fodd bynnag, ceir goruchwyliaeth strategol annigonol o'r ystod o ddarpariaeth amgen a gyflwynir gan yr ysgol neu gan ddarparwyr allanol. Nid yw'r ysgol wedi monitro na gwerthuso'r ddarpariaeth hon i sicrhau bod cynlluniau dysgu'n addas ar gyfer cam dysgu disgyblion, yn bodloni gofynion statudol ac nad ydynt yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae gan y cydlynydd llythrennedd a chydlynwyr y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) a benodwyd yn ddiweddar gynlluniau addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae darpariaeth fuddiol yn ystod amser dosbarth i ddatblygu medrau rhifedd a medrau llythrennedd disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio asesiadau safonedig yn briodol i nodi meysydd i'w datblygu ym medrau disgyblion, a'r disgyblion hynny sydd angen ymyrraeth. Fodd bynnag, mae rôl cydlynwyr ac arweinwyr canol eraill mewn datblygu darpariaeth y cwricwlwm neu mewn monitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau disgyblion yn gyfyngedig. Nid yw'r cynllunio strategol ar gyfer cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm, a'u gweithredu, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o adrannau wedi datblygu cynlluniau gwaith newydd a theilwredig i weithredu eu cynlluniau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 7. Mae ychydig o'r adrannau hyn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn raddol. Fodd bynnag, mae gormod o adrannau'n canolbwyntio gormod ar gynnwys, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar wella medrau trawsgwricwlaidd disgyblion nac ansawdd yr addysgu.

Mae ychydig o feysydd y cwricwlwm yn dechrau ystyried sut mae eu cwricwlwm yn dathlu ac adlewyrchu cyd-destun Cymru. Ceir ychydig o gyfeiriadau at hanes a diwylliant Cymru trwy bosteri o gwmpas yr ysgol am fenywod Cymreig dylanwadol o'r Barri fel Dr Jennifer Millard, Gwen Hinds-Payne, Julia Gillard a Sophie Ingle. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg nac yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru yn ddigon da. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ba mor dda y mae'r cwricwlwm ehangach yn ymdrin ag agweddau pwysig ar ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-destun lleol yr ysgol, diwylliant ac ieithoedd Cymru, yn ogystal â chyfraniadau, storïau a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr. Er enghraifft, mae'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o ffyrdd iach o fyw a pherthnasoedd iach, a sut i wella eu hiechyd meddwl a'u lles. Defnyddir tystiolaeth uniongyrchol o arolygon disgyblion a grwpiau ffocws yn

effeithiol i lywio datblygiad y ddarpariaeth hon. Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gydag ystod eang o bartneriaid i ymestyn ei gwaith yn y maes hwn, er enghraifft trwy ei hymglymiad mewn prosiectau sy’n hyrwyddo buddion sgrinio iechyd.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion wrth iddynt eu cyfarch wrth ddrws yr ystafell ddosbarth, ac yn sefydlu amgylcheddau dysgu cadarnhaol. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’u gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da. Nid ydynt yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yr ysgol yn gyson, ac maent yn caniatáu i ymddygiad gwael atal y disgyblion rhag dysgu. Ac eithrio ychydig o bynciau, mae disgwyliadau athrawon o faint ac ansawdd gwaith y dylai disgyblion ei gwblhau yn rhy isel.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn, ac maent yn defnyddio ac yn esbonio terminoleg pwnc yn briodol. Mae’r mwyafrif o athrawon yn cynllunio eu gwersi’n briodol ac yn darparu ystod o weithgareddau defnyddiol sy’n galluogi disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth, a gwneud cynnydd. Mae’r athrawon hyn yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Maent yn dewis ystod addas o strategaethau addysgu i gefnogi’r dysgu. Er enghraifft, maent yn modelu tasgau i helpu disgyblion i ddeall sut i gwblhau eu gwaith, a’i wella. Yn y gwersi hyn, mae cyflymdra addas i’r dysgu ac mae athrawon yn gosod disgwyliadau priodol, at ei gilydd. Mae’r mwyafrif o athrawon yn defnyddio holi yn briodol i wirio dealltwriaeth disgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau treiddgar ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu hatebion.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio gwersi’n addas. Yn y gwersi hyn, mae athrawon naill ai’n gor-fodelu’r gwaith ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i ddatblygu’n annibynnol neu maent yn rhoi esboniadau estynedig sy’n achosi i ddisgyblion golli diddordeb yn eu dysgu. Yn gyffredinol, gosodir gweithgareddau i gadw disgyblion yn brysur, ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn y bydd disgyblion yn ei wneud yn hytrach na’r hyn y byddant yn ei ddysgu. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn holi disgyblion yn ddigon da. Nid yw eu holi yn herio disgyblion i ymestyn eu hesboniadau a datblygu eu meddwl. Mae cyflymdra’r dysgu’n rhy araf, a disgwyliadau’n rhy isel. O ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb, yn mynd yn aflonyddgar ac yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion wrth fynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae llyfrau’n cynnwys ychydig iawn o adborth ysgrifenedig, os o gwbl. Yn yr ychydig iawn o achosion lle gwelir sylwadau, mae’r rhain yn aml yn aneglur neu’n rhy hael yn canmol gwaith cymedrol iawn. Mae disgyblion yn cwblhau tasgau asesu rheolaidd ym mhob pwnc, ond mae’r rhain yn aml yn sylfaenol ac yn cynnig ychydig iawn o her, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau. At ei gilydd, nid yw dealltwriaeth athrawon o gynnydd disgyblion wedi’i seilio ar wybodaeth asesu ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw athrawon a disgyblion yn glir ynglŷn â’r cynnydd cyffredinol y maent yn ei wneud yn eu dysgu. Yn gyffredinol, nid yw’r wybodaeth asesu sy’n bwydo system fonitro ac olrhain yr ysgol, yn ogystal â’r adroddiadau interim a blynyddol, yn ddigon dibynadwy na chywir.

Mae polisïau a strategaethau’r ysgol ar gyfer gwella addysgu ac asesu wedi’u seilio ar ystod o ymchwil bresennol. Fodd bynnag, mae yna lawer ohonynt ac nid ydynt bob

amser wedi cael eu cyfleu'n effeithiol na'u haddasu'n ddigon da yn ôl cyd-destun yr ysgol. O ganlyniad, maent yn aml yn cael eu camddeall ac mae toreth o strategaethau yn arwain at ddryswch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Ceir diwylliant cadarnhaol o gefnogi lles disgyblion yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Ceir ystod helaeth o ddarpariaeth i gefnogi anghenion disgyblion a mynd i'r afael ag amrywiaeth o broblemau. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar liniaru effaith tlodi ar fywydau disgyblion. Er enghraifft, mae'r rhaglen allgyrsiol werthfawr ar ôl yr ysgol yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau creadigol a gweithgareddau ehangach. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymestyn y diwrnod ysgol hyd at 6pm ac yn cynnwys pryd poeth am ddim i bob disgybl sy'n mynychu. Mae hon yn nodwedd nodedig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid allanol i gefnogi lles disgyblion. Er enghraifft, mae partneriaid o elusennau fel Barnado's yn darparu gwasanaethau cwnsela ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd lleol o fewn eu clwstwr i gynorthwyo disgyblion a'u rhieni wrth iddynt drosglwyddo i ysgol uwchradd.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Cyflwynir hyn trwy'r cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r rhaglen ABCh, wedi'i gefnogi gan wasanaethau a chyfnodau dosbarth. Sefydlwyd ystafell aml-ffydd i ymateb i gais gan ddisgyblion. Caiff disgyblion arweiniad a chyngor diduedd priodol ar ddewisiadau gyrfa.

Ceir ystod o ddarpariaethau ar y safle i gynorthwyo disgyblion ag amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys ymddygiad ac anawsterau emosiynol, a gorbryder. Mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwyr allanol hefyd i gynnig profiad gwaith a phrentisiaethau buddiol oddi ar y safle ar gyfer disgyblion penodol. Fodd bynnag, mae'r meini prawf ar gyfer sut caiff disgyblion eu dewis i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol oddi ar y safle ac ar y safle yn aneglur, ac ni chaiff ansawdd y ddarpariaeth hon ei sicrhau'n ddigon trylwyr i sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr ymyrraeth fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae staff wedi darparu cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen priodol ar gyfer ychydig o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn ddefnyddiol ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn addysgu prif ffrwd i gynorthwyo disgyblion â'u dysgu. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon da. Ceir rhaglen ymyrraeth i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan, ond nid oes trefniadau ar waith i sicrhau ansawdd hyn.

Mae gan yr ysgol ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth 'Rise' sy'n cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 sydd angen cymorth ychwanegol â'u medrau darllen a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cynllunio'r darpariaethau hyn yn strategol i sicrhau eu

bod yn cefnogi cynnydd disgyblion neu'n eu paratoi'n ddigon da ar gyfer gwersi prif ffrwd.

Mae staff yn y dosbarth cysylltiol ar gyfer Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (CSA) yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion unigol. Maent yn darparu cymorth effeithiol i ddiwallu eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac addysgol.

Mae'r ysgol yn ymdrechu i annog presenoldeb da trwy ei hethos a'i gwerthoedd, ac mae arweinwyr yn datblygu ystod o strategaethau i wella presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn yn ddigon strategol ac nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r materion sy'n effeithio ar bresenoldeb. Ceir diffyg ymagwedd systematig at fonitro, olrhain ac ymateb i absenoldeb disgyblion. O ganlyniad, nid yw presenoldeb yn gwella. Mae protocolau'r ysgol i fonitro a chefnogi presenoldeb disgyblion sydd mewn perygl o niwed yn addas. Fodd bynnag, nid yw trefniadau i nodi ble mae disgyblion ar bob adeg o'r diwrnod ysgol yn ddigon trylwyr.

Mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd newydd at reoli ymddygiad yn ddiweddar, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Ceir ystod helaeth o strategaethau ac ymyriadau i gefnogi lles a rheoli ymddygiad disgyblion. Yn benodol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffocws ar ymddygiad cadarnhaol trwy'r system gwobrau a chanmol. Mae'r offeryn olrhain ymddygiad a gyflwynwyd yn ddiweddar yn darparu data helaeth. Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol ac nid yw'r drefn o ran monitro a gwerthuso'r systemau i gefnogi ymddygiad wedi'i datblygu'n dda, sy'n cyfyngu ar eu heffaith.

Caiff trefniadau a gweithdrefnau diogelu eu deall yn dda gan ddisgyblion. Mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant rheolaidd mewn diogelu ac amddiffyn plant, ac maent yn glir ynghylch arferion yr ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae staff yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn brydlon ac yn ddiwyd ac yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol i asiantaethau allanol. Mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol i sicrhau addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â disgyblion, ac yn cynnal cofnodion cywir.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn ymateb i achosion o fwlio yn briodol, gyda'r nod o ailadeiladu perthnasoedd. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad yw'r ysgol bob amser yn delio'n effeithiol ag achosion o fwlio.

Mae diogelwch yn anfoddhaol ar flaen safle'r ysgol, ac mae hyn yn destun pryder o ran iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r ysgol wedi profi nifer o heriau cyd-destunol sylweddol ers ei sefydlu yn 2018, ac yn arbennig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Daeth y pennaeth presennol i'w swydd yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020, ar adeg pan roedd yn ddyddiau cynnar o hyd o ran newid sylweddol yn yr ysgol. Mae'r newid hwn yn cynnwys dechrau darpariaeth gydaddysgol trwy uno dwy ysgol fel rhan o Raglen Trawsnewid Ysgolion Y Barri, ffurfio chweched dosbarth ar y cyd, a throsglwyddo i adeilad newydd. Mae'r pennaeth yn gefnogol i staff a disgyblion, yn agos-ato ac yn hapus i siarad. Mae'r pennaeth a'r pennaeth gweithredol yn disgrifio gweledigaeth ddyheadol i greu amgylchedd dysgu lle caiff pob disgybl ei werthfawrogi, a ble maent yn ennill

medrau a gwybodaeth briodol i gyflawni eu nodau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon effeithiol o ran gwella agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

Caiff rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth eu rhannu ar draws tîm mawr o uwch arweinwyr. Ceir diffygion o ran dosbarthu rolau a chyfrifoldebau uwch arweinyddiaeth. Mae rolau'n anhrefnus ac nid ydynt yn eglur. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff cyfrifoldebau o fewn swyddi uwch arweinwyr unigol eu dyblygu mewn swyddi eraill i uwch arweinwyr. Mae gormod o arweinwyr ynghlwm wrth yr un agwedd ar waith yr ysgol, fel addysgu a phrofiadau dysgu a chynhwysiant. At ei gilydd, mae diffyg cydlynu strategol o ran gwaith uwch arweinwyr, ac mae hyn yn arwain at ddiffyg cyfeiriad clir a chyson ar gyfer staff.

Mae'r ysgol wedi darparu cyfleoedd dros dro i aelodau staff eraill arwain ar brosiectau penodol, fel cau'r bwlch mewn cyflawniad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er bod ychydig o'r agweddau hyn yn berthnasol at ei gilydd, mae bron pob un o'r prosiectau hyn naill ai'n ymwneud ag agweddau y mae uwch arweinwyr yn gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol, neu maent yn debyg i rolau y mae aelodau staff eraill yn ymgymryd â nhw o'u gwirfodd. Mae'r nodau a'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y prosiectau dros dro hyn yn amwys, ac mae prosesau i fesur eu heffaith yn aneglur.

Mae trefniadau rheoli llinell yn ddigonol, ar y cyfan. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â'r arweinwyr canol y maent yn eu rheoli, ac yn darparu atebolrwydd addas mewn ychydig o feysydd. Er enghraifft, maent yn trafod ac yn cynllunio ymyriadau ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni neu'n achosi pryder, ac yn ystyried rhai agweddau ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Mewn cyfarfodydd adrannol, mae arweinwyr canol yn treulio cryn dipyn o amser yn trafod ymgysylltiad disgyblion unigol, ac ychydig o agweddau perthnasol ar y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol y cwricwlwm yn gefnogol iawn i'r staff o fewn eu hadrannau ac yn rhoi cyfarwyddyd clir ar gyflwyno cynlluniau gwaith pwnc. Fodd bynnag, mae diffygion cyffredin yn y modd y mae arweinwyr ar bob lefel yn dwyn pobl eraill i gyfrif am eu gwaith. Ceir trafodaeth broffesiynol gyfyngedig mewn cyfarfodydd rheoli llinell am agweddau pwysig fel safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu, ac ar gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol.

Mae arweinwyr wedi nodi meysydd bras yr ysgol i'w gwella, sy'n cwmpasu agweddau pwysig fel addysgu a dysgu a hyrwyddo lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon cynhwysfawr na thrylwyr, ac o ganlyniad, mae cynllunio gwelliant yn aml yn aneffeithiol. Nid yw arweinwyr yn cynllunio'n strategol nac yn rhannu â staff gyfres gytunedig o weithgareddau sicrhau ansawdd i'w cynnal trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio ystod gyfyng o wybodaeth yn unig at ddibenion hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Nid yw arweinwyr canol yn cymryd rhan yn y broses hon ar hyn o bryd. Er bod y wybodaeth a enillir o weithgareddau sicrhau ansawdd yn llywio'r cynllunio ar gyfer gwelliant mewn ychydig o agweddau, ni chaiff safonau disgyblion nac ansawdd yr addysgu a'r asesu eu gwerthuso'n ddigon manwl a chywir i helpu arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu sy'n ddigon penodol. Nid yw gwerthusiad arweinwyr o safonau a medrau mewn gwersi ac yng ngwaith disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac mae eu harfarniad o addysgu wedi'i gyfyngu i ddefnyddio adnoddau ac ystod gyfyng o strategaethau asesu.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn cynnwys camau gweithredu sy'n rhy generig neu eang ac yn aml yn anodd i'w mesur. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae monitro'r camau gweithredu hyn yn cynnwys ystod gyfyng o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae penaethiaid adrannau yn llunio adroddiadau adolygu cynnydd bob tymor sy'n fuddiol, ar y cyfan, ac yn eu trafod â'u rheolwyr llinell. Yn dilyn gweithgareddau sicrhau ansawdd yn cynnwys uwch arweinwyr yn unig, mae'r uwch arweinwyr hyn yn llunio cynllun gweithredu adrannol ar gyfer yr adran y maent yn rheolwr llinell arni. Mewn llawer o achosion, nid yw camau gweithredu o fewn y cynlluniau hyn yn cyfateb i'r rhai o fewn y cynlluniau gwella adrannol, ac nid yw'n glir pa ddogfen sy'n cael blaenoriaeth.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn, ar y cyfan. Mae amcanion wedi'u cysylltu â blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol, yn ogystal â dyheadau personol. Mae arweinwyr wedi dechrau ystyried agweddau ar ddysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad staff. Er enghraifft, mae'r rhaglen wythnosol 'Diwylliant ar gyfer Dysgu' ('Culture for Learning') a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn cynnwys sesiynau byr buddiol i staff rannu arfer dda mewn agweddau ar addysgu. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr ymagwedd ddigon strategol at gynllunio dysgu proffesiynol neu i werthuso ei effaith ar safonau a darpariaeth. Nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau pwysig sydd angen eu gwella, fel arweinyddiaeth ar bob lefel, adrannau sydd angen cymorth, addysgu ac asesu. O ganlyniad, mae dysgu proffesiynol wedi cael effaith gyfyngedig ar waith yr ysgol.

Mae'r pennaeth gweithredol, ynghyd â'r rheolwr busnes a'r llywodraethwyr perthnasol, yn rheoli cyllideb yr ysgol yn briodol. Mae gan lywodraethwyr brofiad helaeth mewn materion cyllid, maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cymorth buddiol. Mae eu rôl fel ffrind beirniadol yn datblygu'n briodol ac yn effeithiol mewn ychydig o feysydd, fel y cynnig cwricwlwm ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio a sicrhau trefniadau ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar rai blaenoriaethau cenedlaethol fel lleihau effaith tlodi ar fywydau disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cymorth sylweddol ac adnoddau, bwyd a dillad defnyddiol ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai o deuluoedd incwm isel. Mae'r ysgol yn dechrau canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac wedi darparu cyfleoedd addas i staff gydweithio er mwyn cynllunio a threialu deunydd newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol i ymateb i hyn a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, fel datblygu'r Gymraeg a gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2020, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi ailystyried ethos a gwerthoedd yr ysgol. Maent wedi adnewyddu eu blaenoriaethau ac yn awr yn canolbwyntio ar wella safonau ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Fodd bynnag, mae diffyg ymagwedd strategol o hyd at wella meysydd eraill pwysig o waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys addysgu, asesu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, prosesau i fonitro presenoldeb, cydlynu ADY a chynhwysiant, a datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2023